

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Laser Ninja Tattoo Removal

Dyddiad arolygu: 28 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ninja Tattoo Removal ar 28 Ionawr 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod Laser Ninja yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion a gwelsom fod prosesau addas ar waith i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd proses dda ar waith ar gyfer sicrhau cydsyniad cleifion cychwynnol
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio cyfarpar laser
- Roedd lefel dda o gadw cofnodion unigol y cleifion

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid defnyddio cofrestr o driniaethau i gofnodi pob triniaeth
- Rhaid cofnodi cydsyniad cleifion cyn dechrau pob cwrs o driniaeth
- Mae'n rhaid cwblhau hyfforddiant diogelu a chreu polisi

Dylech gyfeirio at atodiad C i weld rhestr llawn o'r meysydd i'w gwella.

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio yn y meysydd canlynol a bod angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith:

- Nid oedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân
- Ni chynhaliwyd asesiad risg tân ac nid oedd polisi tân ar waith ar gyfer y gwasanaeth
- Nid oedd ymarferion tân wedi'u cynnal

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael

sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Laser Ninja Tadoo Removal wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 196 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NU.

Yn ogystal â gweithredu fel y rheolwr cofrestredig, mae un aelod o staff y gwasanaeth hefyd yn weithredwr laser awdurdodedig.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth cael gwared ar datŵs drwy ddefnyddio laser i gleifion dros 18 oed.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddeall anghenion gofal a thriniaeth cleifion er mwyn darparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Fodd bynnag, dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cydsyniad cleifion wedi'i gofnodi'n briodol yn ystod apwyntiadau dilynol er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth barhaus o'r weithdrefn laser.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Yn anffodus, ni chafodd unrhyw holiaduron eu cwblhau, am nad oedd y gwasanaeth wedi trin unrhyw gleifion yn ystod yr wythnosau cyn yr arolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar rai o'r adolygiadau y gwnaeth cleifion eu rhannu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Laser Ninja a gwelsom sylwadau cadarnhaol.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom dystiolaeth bod y clinig yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac yn holi a oedd unrhyw newidiadau wedi bod mewn unrhyw apwyntiad dilynol. Gwelsom hefyd fod hanes meddygol yn cael ei lofnodi gan y claf a'r gweithredwr, sy'n helpu i sicrhau y caiff y triniaethau priodol eu darparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn yr ystafell driniaeth bob amser a bod cleifion ond yn cael eu gweld os oedd ganddynt apwyntiad.

Er mwyn sicrhau urddas cleifion cyn y driniaeth ac ar ei hôl, gwelsom fod sgrin preifatrwydd ar gael i'w ddefnyddio a gellir cloi'r ystafell driniaeth yn ystod y driniaeth. Gwelsom fod clo bysellbad wedi'i osod ar ddrws yr ystafell driniaeth ac roedd arwyddion 'dim mynediad' yn cael eu harddangos.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod croeso i ffrind neu aelod o'r teulu fynd gyda chleifion i'w hymgyngoriad, ond ni chaniateir hyn yn ystod y driniaeth. Byddem yn argymhell bod yr ymarfer yn parhau am nad oes llawer o le yn yr ardal driniaeth ac am nad oes sbectol diogelwch ychwanegol ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyn yn cael ei egluro i'r cleifion ymlaen llaw mewn unrhyw wybodaeth sydd ar gael i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei wybodaeth i gleifion mewn perthynas â hebryngwyr.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth, a hynny am fod y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau. Mae hyn yn cynnwys canllaw i gleifion, sydd ar gael i'r cleifion ei weld. I ategu hyn, ceir tudalen we fanwl sy'n amlinellu'r triniaethau a gynigir.

Gwnaethom gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a ddymunir.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cael cydsyniad cychwynnol ar sail gwybodaeth o safon dda, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cydsyniad gan gleifion yn cael eu derbyn ar lafar yn ystod apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, byddem yn argymhell y gofynnir i gleifion lofnodi i gadarnhau hyn cyn pob triniaeth er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth barhaus o'r weithdrefn.

Dyweddwyd wrthym fod pob claf yn cael cyngor ôl-ofal ar lafar ar ôl cael triniaeth, a gwelsom dystiolaeth o'r wybodaeth a roddir i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff tystiolaeth o gydsyniad cleifion ei gofnodi cyn pob cwrs o driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion ei ddarllen cyn ymrwymo i unrhyw gwrs o driniaeth. Roedd y canllaw, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben¹, yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gwasanaethau a oedd ar gael. Byddem yn argymhell bod y gwasanaeth yn adolygu'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, gan sicrhau bod cyfeiriad cartref y rheolwr cofrestredig yn cael ei newid i gyfeiriad y busnes.

At hynny, mae gan y gwasanaeth wefan dda sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael ac amrywiaeth o wybodaeth ategol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei ddatganiad o ddiben a'i ganllaw i gleifion yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Caiff hanes meddygol y cleifion ei nodi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau addasrwydd eu dewis o driniaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da, gan gynnwys nodiadau ar ffurf copi caled a oedd yn cael eu cadw'n gyson yn ffeiliau'r cleifion.

Er bod y gwasanaeth yn cadw cofnodion unigol y cleifion, gwelsom nad oedd cofrestr o driniaethau cyffredinol ar waith. Mae angen defnyddio cofrestr o driniaethau i nodi bob tro y caiff y laser ei ddefnyddio, a natur y driniaeth a ddarperir. Byddai hyn yn galluogi'r rheolwr cofrestredig i gynnal system a llwybr archwilio petai claf yn cael adwaith niweidiol i driniaeth neu faterion yn ymwneud â chyfarpar.

¹ Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio datganiad o ddiben a ddylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth rhoi cofrestr o driniaethau ar waith i gofnodi'r holl driniaethau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn safle a rennir, gyda gris i fynd i mewn i'r ystafell driniaeth laser. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am un achlysur lle nad oedd wedi llwyddo i ddarparu gwasanaeth i ddarpar glaf o ganlyniad i ofynion hygrychedd. Er mwyn sicrhau bod darpar gleifion yn ymwybodol o unrhyw faterion o ran hygrychedd, rydym yn argymhell y dylid egluro hyn i gleifion yn y canllaw i gleifion ar wefan y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei wybodaeth i gleifion mewn perthynas â hygrychedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn rhoi adborth anffurfiol ar lafar yn aml, sy'n cael ei gofnodi yn eu ffeiliau, a bod y gwasanaeth yn gweithredu ar sail yr adborth hwn lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym hefyd fod y cleifion yn gallu rhoi adborth a llunio adolygiadau o'r gwasanaeth dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu monitro gan y rheolwr cofrestredig.

Gwelsom hefyd fod blwch adborth ar gael yn yr ystafell driniaeth, ond nad oedd wedi cael ei ddefnyddio hyd yma.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant digonol i ddarparu triniaeth laser i gleifion. Cafodd hyn ei gefnogi gan weithdrefnau triniaeth cyfredol a rheolau lleol ar gyfer gweithredu'r cyfarpar laser yn ddiogel.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob agwedd ar ddiogelwch tân yn cael ei hadolygu yn unol â'r safonau a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'n rhaid ymgymryd â hyfforddiant diogelu a chreu polisi er mwyn sicrhau y caiff oedolion sy'n agored i niwed eu hamddiffyn.

Mae'n rhaid cadw at amserlenni glanhau er mwyn cynnal amgylchedd glân a diogel a sicrhau tystiolaeth o hynny.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ni welsom unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod asesiad risg tân ysgrifenedig wedi cael ei lunio a chafodd hyn ei gadarnhau gan y rheolwr cofrestredig. O ganlyniad, ni allem fod yn sicr bod yr holl risgiau tân sy'n berthnasol i'r gwasanaeth wedi cael eu nodi a'u lliniaru'n effeithiol.

Roedd y diffoddydd tân agosaf wedi'i leoli ger yr ystafell driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu cadarnhau a oedd y math hwn o ddiffoddydd tân yn briodol i'w ddefnyddio os byddai achos o dân yn ymwneud â'i gyfarpar laser.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai cyfrifoldeb y landlord yw cynnal a chadw'r cyfarpar diffodd tân ac nad oedd yn gallu cadarnhau pryd y cafodd y cyfarpar ei wasanaethu ddiwethaf. Er i ni gadarnhau fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf, ar ôl cynnal gwriad gweledol, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd cyfrifoldeb am ddigonolrwydd ac addasrwydd y cyfarpar tân a gallu dangos hynny.

Pan wnaethom holi ynghylch pa hyfforddiant diogelwch tân a gwblhawyd, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd wedi cwblhau unrhyw

hyfforddiant perthnasol. O ganlyniad, ni allem fod yn sicr bod gan y rheolwr cofrestredig ddigon o ymwybyddiaeth a hyfforddiant ym maes atal tân.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd nad oedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal, ac nad oeddem yn gallu gweld polisi na gweithdrefn i'r staff a'r cleifion eu dilyn os bydd tân.

O ganlyniad i'r risg bosibl o niwed y mae'r trefniadau diogelwch tân yn eu cyflwyno, ni allem fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldeb i amddiffyn lles a diogelwch ei staff, ei gleifion a phreswylwyr yr adeilad ehangach.

Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan ein proses diffyg cydymffurfio a'u datrys. Ceir manylion camau a gymerwyd yn Atodiad B.

Gwelsom fod y gris i mewn i'r ystafell driniaeth wedi'i farcio gan ddefnyddio tâp 'fragile' gwyn a oedd wedi treulio. Gwnaethom argymhell bod y gwasanaeth yn newid hyn gyda sribed mwy addas neu dâp rhybudd er mwyn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

Er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn hawdd i'w defnyddio, gwelsom dystiolaeth foddhaol fod gwiriad o waith weirio'r adeilad, sy'n cael ei gynnal bob pum mlynedd, wedi'i gynnal 2016. Gwelsom hefyd fod y Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn gyfredol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf, ond nad oedd wedi cwblhau cwrs gloywi er mwyn sicrhau bod ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyfredol. Byddem yn cynghori'r rheolwr cofrestredig i adolygu ei anghenion hyfforddiant er mwyn ei helpu i benderfynu p'un a fyddai'n cael budd o fynychu cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Byddem hefyd yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn cael pecyn cymorth cyntaf ar gyfer y gwasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y gris i mewn i'r ystafell driniaeth yn cael ei nodi'n briodol i gleifion.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar y safle.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y gwasanaeth bolisi atal a rheoli heintiau sylfaenol ar waith a oedd yn amlinellu'r ffordd roedd y gwasanaeth yn cynnal amgylchedd glân a diogel. Roedd hyn yn cynnwys rhestr wirio ar ddechrau bob dydd a rhestr wirio o gamau i'w cymryd rhwng cleifion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i gadarnhau bod y gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal. Felly, byddem yn argymhell bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnwys mewn amserlen glanhau a'u bod yn cael eu cofnodi bob dydd gan y rheolwr cofrestredig i ddangos pa gamau a gymerwyd.

Gwelsom fod rhai arwynebau yn yr ystafell driniaeth, megis topiau cypyrddau, ochrau a ffrâm y gwely yn edrych yn fudr o ganlyniad i lwch yn casglu. Er ein bod yn cydnabod nad oedd yr ystafell driniaeth wedi cael ei defnyddio am sawl wythnos cyn yr arolygiad, bydd rhoi amserlen glanhau dyddiol neu restr wirio ar waith yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo priodol. Gwelsom hefyd fod bin gwastraff clinigol priodol ar gael yn yr ystafell driniaeth, a thystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer gwastraff cyffredinol a chlinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddechrau cadw amserlen glanhau, gan sicrhau bod y camau a gymerir yn cael eu cofnodi'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i oedolion dros 18 oed yn unig. Gwelsom dystiolaeth o bolisi sy'n gwahardd rhoi triniaeth neu wasanaethau i unigolion o dan 18 oed yn benodol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Ni welsom dystiolaeth o bolisi diogelu na tystiolaeth bod lefel briodol o hyfforddiant diogelu wedi cael ei chwblhau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hyfforddiant diogelu oedolion wedi cael ei gwblhau, ond nid oedd yn gallu darparu tystiolaeth o hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth i AGIC fod y lefel briodol o hyfforddiant diogelu oedolion (lefel 2 o leiaf) wedi'i gwblhau.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig hefyd lunio polisi diogelu oedolion, gan sicrhau bod y polisi'n cynnwys gweithdrefnau clir i'w dilyn os bydd pryder ynglŷn â diogelwch, pwyntiau cyswllt awdurdod lleol, cyfrifoldebau staff a chanllawiau ar nodi arwyddion o gamdrin.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth bod hyfforddiant diogelu wedi cael ei gwblhau.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu polisi diogelu oedolion.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth bod protocolau triniaeth priodol ar waith a bod y rhain wedi cael eu harolygu gan ymarferydd meddygol arbenigol. Fodd bynnag, nid oedd copi o brotocolau triniaeth ar gael yn hawdd ar y safle. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth ar gael ar y safle bob amser er mwyn cael gafael arnynt ar unwaith pan fo angen.

Gwelsom hefyd fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau a rheolau lleol² a oedd yn disgrifio sut i weithredu'r peiriannau'n ddiogel. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd y gweithredwyr laser wedi'u llofnodi. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol ar gael ar y safle bob amser er mwyn cael gafael arnynt ar unwaith.

Roedd y rheolau lleol yn cynnwys asesiad risg o beryglon a oedd wedi'i gwblhau gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, nid oedd yr agwedd hon wedi cael ei hadolygu bob blwyddyn. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hyn yn mynd rhagddo gyda'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a byddai tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i AGIC cyn gynted ag y bydd ar gael.

Gwelsom dystiolaeth yn cadarnhau mai ym mis Ionawr 2020 y cafodd y peiriant laser ei wasanaethu ddiwethaf. Cadarnhaodd yr adroddiad gwasanaethu fod y peiriant laser mewn cyflwr boddhaol.

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei brotocol triniaeth a'r rheolau lleol yn cael eu cadw ar y safle.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth o'r asesiad risg diweddaraf unwaith y bydd ar gael.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³ a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio â'r rheolau lleol.

Roedd clo wedi'i osod ar ddrws yr ystafell driniaeth yn ogystal ag arwyddion 'dim mynediad' er mwyn atal mynediad heb awdurdod tra bo'r peiriant yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr allwedd i weithredu'r peiriant laser yn cael ei chadw gydag ef bob amser er mwyn atal defnydd heb awdurdod o'r peiriant ymhellach.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nododd y rheolwr cofrestredig ei fod yn awyddus i wella'r gwasanaeth drwy geisio adborth gan gleifion a thrwy gyfathrebu â chleifion yn barhaus drwy gydol cwrs eu triniaethau.

Byddem yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd, megis mynd ati'n rhagweithiol i gael adborth gan gleifion neu drwy gynnal archwiliadau o arferion cadw cofnodion er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn barhaus.

³ Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser ac IPL yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom dystiolaeth o arferion cadw cofnodion da. Roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau mewn modd digon manwl, cyson a chlir, sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol o ran cynllunio a chofnodi triniaeth cleifion.

Nodwyd bod copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth da, ond rydym yn cynghori y dylai ymgyswngwyrddo â'r rheoliadau perthnasol a'r safonau a'r canllawiau ategol er mwyn sicrhau ei fod yn hollol ymwybodol o'r gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i'w wasanaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Laser Ninja ei redeg o ddydd i ddydd gan y rheolwr cofrestredig, sef y perchennog a'r unig weithredwr laser awdurdodedig.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn arddangos tystysgrif cofrestru AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Roedd gan y gwasanaeth rai polisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain, a gwelsom nad oedd rhai o'r polisïau yn lleol / yn berthnasol i'r gwasanaeth, ac eraill yr oedd angen eu datblygu ymhellach, fel yr amlinellir yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Nid oedd polisïau a gweithdrefnau eraill ar gael i'w gweld yn hawdd ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau ar gael i gyfeirio atynt pan fo angen a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda phroses briodol ar gyfer rheoli fersiynau a dyddiadau adolygu a restrir.

Drwy drafodaethau a gynhaliwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth da, ond nid oedd yn ymwybodol o safonau a rheoliadau penodol nac yn eu deall. Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgyswngwyrddo â'r rheoliadau perthnasol a'r safonau a'r canllawiau ategol er mwyn sicrhau ei fod yn hollol ymwybodol o'r gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i'w wasanaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl bolisiâu yn cael eu hadolygu a'u diweddarau o leiaf bob blwyddyn.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r safonau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w wasanaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith a bod hyn yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleientiaid.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ymrwymiad i weithio gyda chleifion er mwyn cyflawni eu canlyniadau dymunol a rheoli disgwyliadau drwy gwrs triniaeth claf.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser cofrestredig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal ar gyfer y rheolwr cofrestredig er mwyn helpu i amddiffyn a diogelu'r cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Laser Ninja

Dyddiad arolygu: 28 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu asesiad risg tân ysgrifenedig	26(4)f	Darparwyd y ddogfen	Rheolwr Cofrestredig	Pythefnos
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar diffodd tân yn addas ar gyfer y gwasanaeth Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar diffodd tân yn cael ei gynnal a'i gadw	26(4)a	Dylai diffoddydd tân CO ₂ gael ei ddefnyddio gyda'r peiriant laser os bydd tân. Dylid cadw'r diffoddydd tân ar y safle a'i gynnal a'i gadw bob blwyddyn. Cafodd ei wasanaethu ddiwethaf 9/10. Gwasanaethu'r	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bob blwyddyn		cyfarpar nesaf 9/20.		
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau cwrs hyfforddiant addas mewn diogelwch ac atal tân.	26(4)c	Cwblhau cwrs ar-lein gan vitalskills.co.uk H.S.Q.E (darperir Tystysgrif)	Rheolwr Cofrestredig	1 wythnos
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal a threfnu ymarferion bob 6 mis o leiaf a chofnodi'r rhain yn briodol	26(4)d	Dylai'r landlord cynnal ymarferion tân bob 6 mis a'u cofnodi	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi diogelwch, gan gynnwys gweithdrefnau i staff a chleifion eu dilyn os bydd tân, ac mae'n rhaid ei adolygu bob 12 mis.	26(4)d	Darparu polisi diogelwch tân	Rheolwr Cofrestredig	1 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): J Devlin

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Laser Ninja

Dyddiad arolygu: 28 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei wybodaeth i gleifion mewn perthynas â hebryngwyr.	10. Urddas a pharch	Caiff y wefan a'r canllaw i gleifion eu diweddarau er mwyn egluro bod hebryngwyr ond yn gallu mynychu'r ymgynghoriad.	JD	
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff tystiolaeth o gydsyniad cleifion ei gofnodi cyn pob cwrs o driniaeth.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Caiff cydsyniad ysgrifenedig (llofnod a dyddiad) ei gael a'i gofnodi ar gofnodion cleifion cyn pob sesiwn dilynol.	JD	
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei ddatganiad o ddiben a'i ganllaw i gleifion yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Caiff hyn ei adolygu a'i ddiweddarau os bydd angen.	JD	

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth rhoi cofrestr o driniaethau ar waith i gofnodi'r holl driniaethau.	8. Cynllunio a darparu gofal	Roedd cofrestr o driniaethau ar waith ond nad oedd yn cael ei defnyddio. Caiff hon ei defnyddio bellach i greu ail gofnod o bob triniaeth.	JD	
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei wybodaeth i gleifion mewn perthynas â hygyrchedd.	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Caiff y wefan a'r canllaw i gleifion eu diweddarau.	JD	
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y gris i mewn i'r ystafell driniaeth yn cael ei nodi'n briodol i gleifion. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar y safle.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Mae tâp rhybudd melyn a du eisoes wedi'i osod ar y gris. Caiff pecyn cymorth cyntaf ei brynu.	JD	
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddechrau cadw amserlen glanhau, gan sicrhau bod y camau a gymerir yn cael eu cofnodi'n briodol.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae templed grid eisoes wedi'i lunio a'i roi ar waith i gofnodi'r gweithgarwch glanhau.	JD	
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth	11. Diogelu plant a diogelu	Mae hyfforddiant diogelu wedi'i oedi o	JD	

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>bod hyfforddiant diogelu wedi cael ei gwblhau.</p> <p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu polisi diogelu oedolion.</p>	<p>oedolion agored i niwed</p>	<p>ganlyniad i Covid-19, ond mae opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb neu hyfforddiant ar-lein yn cael eu hystyried.</p> <p>Mae polisi diogelu bellach ar waith</p>		
<p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei brotocol triniaeth a'r rheolau lleol yn cael eu cadw ar y safle.</p> <p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddarparu tystiolaeth o'r asesiad risg diweddaraf unwaith y bydd ar gael.</p>	<p>16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig</p>	<p>Caiff copïau caled eu cadw ar y safle bellach.</p>	<p>JD</p>	
<p>Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd</p>	<p>6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd</p> <p>21. Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd</p>	<p>Caiff ffyrdd eraill o gael adborth gan gleifion a chadarnhau cofnodion cleifion eu hystyried.</p>	<p>JD</p>	

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl bolisiâu yn cael eu hadolygu a'u diweddarau o leiaf bob blwyddyn.</p> <p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r safonau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w wasanaeth.</p>	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Caiff polisiâu eu hadolygu bob blwyddyn a'u diweddarau os bydd angen.	JD	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): J Devlin

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: